**ADRODDIAD I FWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU**

**DYDDIAD 15 MAWRTH 2019**

---

**Teitl:** **Llywodraethu Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru**

**Awdur:** **Iwan G D Evans – Swyddog Monitro – Corff Atebol**

---

## 1. AMCAN YR ADRODDIAD

I barhau cynnydd gyda mabwysiadu strwythurau llywodraethu ar gyfer y Bwrdd Uchelgais Economaidd.

## 2. Penderfyniad a Geisir

1. **I dderbyn yr adroddiad.**
2. **I dderbyn y bydd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru cyn belled y mae'n rhesymol bosibl yn cyfarfod mewn un lleoliad priodol yng Ngogledd Cymru yn unol â'r adroddiad.**
3. **Yn ddarostyngedig i sefydlu Bwrdd Arweinyddion Busnes ffurfiol. I benodi Cadeirydd y Gweithdy Busnes Gogledd Cymru fel Ymgynghorydd i'r Bwrdd Uchelgais Economaidd a chadarnhau strwythur Ymgynghorwyr.**
4. **Fod adroddiad pellach ar yr Is-Fyrddau arfaethedig yn cael eu cyflwyno i'r cyfarfod nesaf o'r Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.**
5. **I dderbyn Protocol Gweithredol ar gyfer y Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.**

## 3. RHESWM AR GYFER Y PENDERFYNIAD

Yn dilyn Cytundeb Llywodraethant Cyntaf ("GA1") yn dod i rym a sefydlu'r Bwrdd Uchelgais Economaidd ("BUE") fel Cyd-Bwyllgor a hawl penderfynu mae materion o amgylch y llywodraethu sydd angen eu symud i benderfyniad.

## 4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1 Ymunodd y Partneriaid yn ffurfiol a'r GA1 ar 18$^{fed}$ o Ragfyr 2018. Darparwyd ar gyfer sefydlu Cyd-Bwyllgor o dan Ddeddfau Llywodraeth Leol 1972 a 2000. Mae'n Gyd-Bwyllgor yn gweithredu swyddogaethau Gweithredol sydd yn ddarostyngedig i

drefniant statudol penodol yn deillio o sefydlu trefn “Cabinet” ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae’n deddfu ar gyfer gwahaniaethu’n eglur o swyddogaethau Gweithredol a swyddogaethau nad ydynt i’r Weithrediaeth. Mae GA1 yn darparu pwerau i’r BUE i sefydlu fframwaith o “Is-Fyrddau” sydd i’w sefydlu fel Is-Bwyllgorau ffurfiol o’r Cyd Bwyllgor.

4.2 Mewn termau cyfreithiol mae statws Is-Bwyllgor ynglŷn â’r aelodaeth a threfniadau ar gyfer cyfarfodydd a chyhoeddi prin yn wahanol i’r BUE. Felly, bydd angen i gyfarfodydd Is-Bwyllgorau gael eu cefnogi drwy drefniadau'r Gwasanaeth Pwyllgorau a byddent angen cefnogaeth llywodraethant cyfreithiol yn arbennig os ydynt yn gweithredu pwerau penderfynu dirprwyedig. Bydd angen darparu adnoddau ar gyfer hyn.

4.3 Mae’r fframwaith a osodwyd yn GA1 a’r Ddogfen Gynnig yn rhagweld cyfres o Is-Fyrddau o amgylch themâu allweddol yn y Cais Twf a’r Weledigaeth Twf, Atodlen 1. Mae’r ardaloedd yma fel a ganlyn:

- Cyflawni Digidol
- Cyflawni Sgiliau a Chyflogaeth
- Cyflawni Trafnidiaeth
- Cyflawni Menter ac Arloesedd
- Cyflawni Safleoedd ac Eiddo

4.4 Er na ragwelwyd byddai'r oll o’r Is-Fyrddau yn dod i fodolaeth yn syth, amlygwyd dau yn benodol ar gyfer eu gweithredu gan y BUE cyn gynted a bo hynny yn rhesymol ymarferol, ym meysydd Trafnidiaeth a Digidol.

4.5 O fewn GA1 byddai’r Is-Fyrddau yn ymwneud fel lleiafswm a’r swyddogaethau a restrwyd yn y cytundeb tu fewn eu cylch gorchwyl ac yn unol â’r cylch gorchwyl safonol. Byddai modd hefyd iddynt dderbyn pwerau a ddirprwywyd iddynt gan y Cyd Bwyllgor er, yng nghyd-destun y Cynnig Twf rhagwelir y byddai'r rhain yn debygol o fod ynglŷn â’r rheolaeth a goruchwyliaeth o brojectau penodol.

4.6 Yng nghyd-destun sgiliau mae Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol (“RSP”) ac a ddisgrifir fel “partneriaeth wirfoddol” eisoes yn bodoli. Mae’r aelodaeth a chylch gorchwyl o fath fel petai’r BUE i symud i sefydlu Is-Fwrdd ffurfiol ynglŷn â Sgiliau a Chyflogaeth mae’n debygol y byddai’n gôr-gyffwrdd gyda agweddau o waith fyddai hefyd yn disgyn o fewn swyddogaeth yr RSP. Mae’r aelodaeth traws sector o’r RSP yn golygu fod budd-ddeiliaid allweddol yng nghyd-destun sgiliau yn cael eu cynrychioli ar y corff.

4.7 Mae’r darpar gynllun gweithredu yn adnabod strwythur llywodraethu ar gyfer GA2 fydd yn cael dylanwad ar union natur yr Is-Fyrddau ac a fyddent yn dod yn Is-Bwyllgorau ffurfiol. Mae’r fframwaith mewn lle i gymryd y llwybr yma. Cydnabyddir hefyd y bydd rhaid sefydlu’r Is-Bwyllgor Trafnidiaeth fel Is- Bwyllgor ond yng ngoleuni trafodaethau sydd ar y gweill gyda Llywodraeth Cymru bydd angen adolygu’r union gylch gorchwyl gan ddal sylw at gynlluniau ehangach ar gyfer trafnidiaeth ranbarthol.

Mae angen hefyd i’r Is–Fwrdd Digidol angen ei gyfarch. Argymhellir y dylai adroddiad manylach ar yr Is-Byrddau a fframwaith cyrff cefnogol gael ei baratoi a’i gyflwyno i’r cyfarfod nesaf o’r BUE.

**Ymgynghorwyr**

4.8 Fel rhan o GA1 gosodwyd strwythur o Ymgynghorwyr i’r BUE mewn lle er sicrhau llais i bartneriaid allweddol yn y Cyd Bwyllgor. Mae ganddynt statws penodol gan gynnwys hawl i gyflwyno i’r BUE. Mae Ymgynghorwyr sydd hefyd yn Bartïon a’r hawl gyda Phartïon eraill i gychwyn cyfnod “cnoi cil” ar gyfer penderfyniadau. Mae gan yr BUE hawl o dan GA1 i benodi cyrff eraill fel Ymgynghorwyr. Ar hyn o bryd adnabyddir y cyrff canlynol sydd yn Bartïon a/neu Ymgynghorwyr i’r BUE:

Prif Ysgol Bangor

Prifysgol Glyndŵr

Coleg Cambria

Grŵp Llandrillo Menai

Cyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy er nad yn Bartïon sydd â hawl i fynychu fel Ymgynghorwyr

4.9 Rhagwelir fel rhan o GA2 y bydd corff budd-ddeiliad ffurfiol, y Grŵp Arweinyddion Busnes yn cael ei sefydlu gyda rôl allweddol fel llais sector breifat a chynghori’r BUE. Cydnabuwyd erioed y byddai cadeirydd y corff arfaethedig i eistedd fel Ymgynghorydd i’r BUE. Yn y cyfamser a gan ddisgwyl penodiad y corff yma argymhellir fod cadeirydd presennol y Gweithdy Busnes Gogledd Cymru yn cael ei benodi fel Ymgynghorydd i’r BUE.

**Protocol Gweithredol y Bwrdd Uchelgais Economaidd**

4.10 Mae Atodiad 1 yn gosod allan trefniadau ar gyfer cefnogi gwaith yr BUE a sicrhau fod ei drefniadau yn darparu ar gyfer safonau priodol o lywodraethu a chydymffurfio statudol.

4.11 Mae’r drafodaeth wedi bod yn parhau ynglŷn â lleoliad cyfarfodydd yr BUE. O safbwynt ymarferol argymhellir y dylai’r cyfarfodydd cymryd lle mewn siambr Cyngor neu Bwyllgor fydd gydag offer i hwyluso’r cyfarfod ei hun, gan gynnwys cyfieithu ond hefyd yn hwylus ar gyfer mynediad cyhoeddus. Mae Gwasanaethau Pwyllgorau wedi sicrhau defnydd o Siambr y Cyngor ym Modlondeb, Conwy ar gyfer rhai o’r cyfarfodydd nesaf. Fodd bynnag, awgrymwyd y gallai trefniadau gael eu gwneud gyda Chyngor Sir Ddinbych i gyfarfod yn Ruthin fel safle amgen.

## 5. OBLYGIADAU ARIANNOL

Mae’r rhain wedi eu hamlinellu yn sylwadau’r Prif Swyddog Cyfreithiol

## 6. OBLYGIADAU CYFREITHIOL

Mae’r adroddiad yn gosod allan y trefniadau cyfreithiol ynglŷn â strwythur llywodraethau threfniadau'r Bwrdd Uchelgais Economaidd.

## 7. OBLYGIADAU STAFFIO

Dim wedi’u hadnabod

## 8. OBLYGIADAU AR GYFER CYDRADDOLDEB

Dim wedi’u hadnabod

## 9. YMGYNGHORIADAU A GYFLAWNWYD

D/B

---

**YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:**

**i. Swyddog Monitro – Corff Atebol:**

Mae’r adroddiad wedi ei pharatoi gan y Swyddog Monitro

**ii. Pennaeth Cyllid – Corff Atebol:**

Mae'r materion llywodraethu hyn yn bwnc er ystyriaeth aelodau'r Bwrdd, ond byddai'n benderfyniad pragmatig i gwrdd mewn lleoliad canolog yng ngogledd Cymru.

Ymhellach, dylid nodi bydd costau perthnasol (fel y'u cyflwynir yn y gyllideb arfaethedig sydd hefyd ar raglen heddiw) yn amrywio gyda’r nifer o is-bwyllgorau i’w sefydlu ac amlder eu cyfarfodydd.

**Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru**

**Trefniadau Cyfarfodydd**

Mae Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ("BUE") yn Gyd-bwyllgor statudol. Mae ganddo gylch gorchwyl a phwerau wedi'u dirprwyo gan y Cynghorau i arwain ar y Cais Twf a'r Weledigaeth Twf ehangach yn rhanbarthol. Mae ei Gylch Gorchwyl manwl a'i drefn llywodraethu wedi'u nodi yn y Cytundeb Llywodraethu Cyntaf (“GA1”)

1. **Aelodaeth**

   Mae Arweinyddion y chwe Chyngor yn aelodau statudol o'r BUE. Penodir y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd o blith yr aelodau hyn. Mae darpariaeth ar gyfer penodi dirprwyon.

   Fe'i cefnogir i ddechrau gan Ymgynghoryddion sy'n cynrychioli partïon eraill y GA1 a budd-ddeiliaid allweddol, un ar gyfer pob corff. Er nad ydynt yn aelodau o'r Pwyllgor, mae ganddynt hawliau ynglŷn a siarad yn y Pwyllgor a rhai hawliau ynglŷn ac adolygu penderfyniadau . Gall y BUE wahodd cyrff neu sefydliadau eraill i benodi Ymgynghorwyr. Mae gan Ymgynghorwyr lais pwysig yng nghyfarfodydd y Bwrdd Uchelgais a dylid ystyried hynny wrth eu penodi.

2. **Swyddogion**

   Bydd swyddogion yn mynychu'r cyfarfod i ddarparu cyngor , sef y Cyfarwyddwr Arweiniol, y Prif Weithredwyr a'r Swyddogion Statudol, Monitro a Chyllid. Bydd swyddogion eraill yn mynychu cyfarfodydd sydyn ôl yr angen i gyflwyno adroddiadau.

3. **Cyfarfodydd**

   Fel Cyd-bwyllgor statudol, tybir y bydd y cyfarfodydd a'r dogfennau yn agored i'r wasg a'r cyhoedd. Felly, mae gofynion statudol yng nghyswllt hysbysu am gyfarfodydd a chyhoeddi rhaglenni ac adroddiadau.

   Gellir eithrio y wasg a'r cyhoedd ar seiliau statudol penodol, sy'n cynnwys datgelu gwybodaeth sy'n ddeunydd cyfrinachol, ynglŷn a thrafodaethau cytundebol neu gwybodaeth sy'n fasnachol sensitif. Y Swyddog Monitro yn gweithredu fel Swyddog Priodol fydd yn penderfynu ar statws yr adroddiadau ar y seiliau statudol ac mae'n amodol ar brawf budd cyhoeddus.

   Caiff rhaglenni ac adroddiadau'r cyfarfodydd eu cyhoeddi ddim hwyrach na phum diwrnod clir cyn y cyfarfod.

   Cynhelir y cyfarfodydd mewn lleoliadau priodol yng Ngogledd Cymru

Bydd cyfarfodydd arferol yn dechrau am 13:00 ar y dyddiadau sydd wedi'u nodi yng nghalendr y cyfarfod. Gall y Bwrdd Uchelgais osod ei galendr ei hun o gyfarfodydd ac, os bydd angen, mae darpariaethau yn y Rheolau Sefydlog ar gyfer cyfarfodydd Arbennig.

.

**4. Y Grŵp Gweithredol**

Yn unol â GA1, bydd yr adroddiadau drafft i'r BUE yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd Gweithredol er cymeradwyaeth terfynol ynghylch cynnwys ac argymhellion.

**5. Rhaglen ac Adroddiadau**

Bydd Rhaglenni ac Adroddiadau i'r BUE mewn ffurf safonol. Cânt eu paratoi a'u cyfieithu gan eu hawdur neu swyddog perthnasol. Nid oes darpariaeth ar gyfer adroddiadau llafar a rhaid i adroddiadau gael eu cyhoeddi gyda'r rhaglen.

Caiff Adroddiadau ac Atodiadau eu cylchredeg i'r Swyddog Monitro a'r Swyddog Cyllid er mwyn cynnwys y rhannau Cyfreithiol ac Ariannol. Gwneir ceisiadau am eitemau eithriedig ar y cam hwn. Rhaid i unrhyw ddiwygiadau dilynol i'r adroddiad a argymhellir gan y Grŵp Gweithredol gael eu hail-gyflwyno i'r Swyddogion Statudol i'w hadolygu cyn eu cyhoeddi yn Rhaglen y BUE.

Dyma'r amserlen ar gyfer adroddiadau:

1. Adroddiad drafft i'r Swyddogion Statudol - 3 diwrnod gwaith cyn rhyddhau rhaglen cyfarfod y Grŵp Gweithredol
2. Cyflwyno i'r Grŵp Gweithredol - 4 diwrnod (dydd Llun) cyn cyfarfod y Grŵp Gweithredol
3. Cyflwyno adroddiadau i'r pwynt cyswllt yn yr Awdurdod Lletya gyda sylwadau swyddogion statudol - fersiwn Cymraeg a Saesneg - ddiwrnod cyn cyhoeddi'r Agenda – 7 diwrnod gwaith cyn y Bwrdd Uchelgais (dydd Mercher yr wythnos cyn y Bwrdd Uchelgais)
4. Cyhoeddi'r Rhaglen – 5* diwrnod clir cyn y Bwrdd Uchelgais (dydd Iau yr wythnos cyn y Bwrdd Uchelgais)
5. Cyfarfod y Bwrdd Uchelgais (trydydd dydd Gwener y mis fel arfer - gweler yr amserlen)

Er mwyn sicrhau bod adroddiadau i'r Bwrdd Uchelgais yn cael eu paratoi a'u cyhoeddi'n briodol, mae'n rhaid cadw at yr amserlen hon. Caiff adroddiadau hwyr eu gohirio tan gyfarfod addas nesaf y BUE. ( *yr isafswm statudol a adlewyrchir yn GA1 yw 3 diwrnod clir)

**6. Cyhoeddi a Chyhoeddusrwydd**

Bydd rhaglenni'n cael eu cyhoeddi'n electronig ar wefan Cyngor Gwynedd. Caiff y ddolen ei dosbarthu i'r holl aelodau, ymgynghorwyr a swyddogion.

Caiff y ddolen ei dosbarthu i'r wasg

Yn ogystal, caiff y ddolen ei chyhoeddi ar ffrwd Twitter a Facebook BUGC

## 7. Pleidleisio a Phenderfyniadau

Gwneir penderfyniadau drwy bleidlais fwyafrif o Arweinyddion y Cynghorau. Ni fydd gan y Cadeirydd bleidlais fwrw ond caiff materion eu gohirio tan y cyfarfod nesaf os yw'r bleidlais yn gyfartal.

Bydd gan yr Ymgynghoryddion hawl i siarad ar unrhyw fater sydd gerbron y BUE a rhaid ystyried y sylwadau hynny. Fodd bynnag, os bydd unrhyw ddau Barti (yn aelodau neu'n Ymgynghoryddion ) yn gwneud cais o’r fath, caiff y mater ei ohirio tan gyfarfod nesaf y BUE.

## 8. Codau Ymddygiad a Gwrthdrawiad Buddianau

Bydd aelodau awdurdodau lleol sy'n mynychu'r Bwrdd Uchelgais wedi'u cyfyngu gan eu Codau Ymddygiad a byddant yn datgan ac yn ymdrin ag unrhyw fuddiant personol yn unol â'r gofynion hynny. Mae GA1 yn cynnwys darpariaeth gyffelyb ar gyfer cynrychiolwyr Ymgynghoryddion sy'n mynychu'r cyfarfodydd ( Atodiad 1) . Bydd y Swyddog Monitro yn cynghori ar faterion sy'n ymwneud â Chôd Ymddygiad.

## 9. Iaith a Chyfieithu

Cynhelir holl gyfarfodydd y Bwrdd Uchelgais yn ddwyieithog a gall pawb sy'n cymryd rhan siarad drwy gyfrwng y Gymraeg a/neu Saesneg. Bydd yr Awdurdod Lletya yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd.

## 10. Cofnodion a Thaflenni Penderfyniad

Fel Cyd-bwyllgor Gweithredol statudol, mae gofyn cyfreithiol i bob penderfyniad gael ei gyhoeddi mewn taflen benderfyniad ffurfiol sy'n cofnodi'r wybodaeth a ganlyn:

(a) y penderfyniad, yn cynnwys y dyddiad y'i gwnaed;
(b) y rhesymau dros y penderfyniad;
(c) datgan buddiant a/neu oddefeb yng nghyswllt y mater;
(d) manylion unrhyw ymgynghoriadau a wnaed yn unol â chyfansoddiad yr awdurdod e.e. swyddogion statudol

Nid oes gofyn ffurfiol i gynhyrchu cofnodion o'r cyfarfod fodd bynnag, mae taflenni penderfyniad wedi'u cyfyngu i gofnodi'r manylion statudol felly bydd cofnodion o’r cyfarfodydd yn cael eu paratoi ..

Caiff taflenni penderfyniad a chofnodion drafft eu cymeradwyo gan y Cyfarwyddwr Arweiniol a'r Swyddogion Statudol.

**11. Craffu**

Mae GA1 yn darparu bod craffu yn cael ei gadw yn y Cynghorau unigol. Rhagwelir y bydd y BUE yn gweithio i hwyluso rôl craffu ac aelodau etholedig eraill drwy ddarparu ar gyfer briffio rheolaidd ar waith y Bwrdd Uchelgais. Mae darpariaeth yn GA1 ar gyfer sefydlu Fforwm BUE a fyddai angen ei gyd-sefydlu gan y Cynghorau.

**12. Corff Atebol**

Rôl y Corff Atebol yng nghyswllt GA1 yw darparu'r gwasanaethau cefnogol i hwyluso gwaith y BUE a'r Is-bwyllgorau (Byrddau). Mae hyn yn cynnwys nid yn unig y swyddogion statudol ond darparu cyngor cyfreithiol, cyngor ariannol a chyngor technegol arall hefyd. Yn ogystal, mae'n cynnwys cefnogaeth pwyllgorau a gwasanaethau cyfieithu ar gyfer paratoi rhaglenni, cofnodion a thaflenni penderfyniad a dogfennau perthnasol eraill.